Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Briff 7 Munud

Mai 2025



llyw.cymru

# Briff 7 Munud

## Pam mae'r canllawiau ymarfer hyn yn bodoli?

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar fywydau llawer o'r plant a'r bobl ifanc rydym yn siarad â nhw yn Cafcass Cymru. Yn 2020, nododd Adroddiad y Panel Niwed fod angen i bob rhan o'r system cyfiawnder teuluol ymateb yn well i gam-drin domestig.

Ein rôl yw hyrwyddo llais y plentyn mewn achosion llys teulu. Mae gennym ran werthfawr i'w chwarae wrth eirioli dros eu diogelwch a'u llesiant. Yn unol â Deddf Cam-drin Domestig 2021, rydym yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig hefyd, lle mae cam-drin yn ffactor yng nghydberthnasau'r rhai sy'n gofalu amdanynt neu eu teulu agos.

Mae felly'n bwysig ein bod yn ymdrin â'n gwaith fel ymarferwyr plant mewn ffordd gyson, sy'n ystyriol o drawma a cham-drin domestig ac yn seiliedig ar gryfderau er mwyn cefnogi'r argymhellion mwyaf diogel i blant a phobl ifanc a, thrwy hynny, eu rhwydwaith teuluol ehangach.

## Amcanion Allweddol

Llywio a chefnogi dull gweithredu ymarferwyr Cafcass Cymru wrth ymdrin â phlant a'u teuluoedd pan fydd cam-drin domestig wedi'i nodi fel ffactor risg.

Cefnogi ein dealltwriaeth o gam-drin domestig o bob math, er mwyn asesu'r risg o niwed i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth i'r llys teulu ymdrin â'u hachos.

## I bwy mae hyn yn gymwys?

Rydym am i bawb yn Cafcass Cymru weithio'n unol ag egwyddorion y canllawiau hyn.

I ymarferwyr plant, bydd y canllawiau hyn yn eu helpu i lunio adroddiadau gwybodus ac ystyriol, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant yn eu hargymhellion pan fydd achosion o gam-drin domestig i'w hystyried.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn werthfawr i dimau eraill yn Cafcass Cymru. Mae unrhyw gysylltiad â theuluoedd a rhanddeiliaid, boed hyn mewn perthynas â'n gwaith llys swyddogol, prosesau busnes a gweinyddol neu brosiectau ehangach, yn rhoi cyfle i ni ymdrin â'n gwaith mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma a cham-drin domestig.

## Egwyddorion craidd

- Cydnabod a thynnu sylw at effaith cam-drin domestig ar ddiogelwch a llesiant dioddefwyr-oroeswyr (plant ac oedolion).
- Gwrando ar blant a phobl ifanc a thynnu sylw at eu dymuniadau a'u hanghenion yn ein hadroddiadau.
- Dwyn rhieni sy'n cam-drin i gyfrif drwy dynnu sylw at effaith camdriniaeth yn ein hadroddiadau, ac yn ein hargymhellion.
- Defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau pan fyddwn yn trafod rhieni sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yn ein hadroddiadau.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-701-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Sut maent yn effeithio ar ymarfer?

Mae ymarferwyr Cafcass Cymru wedi cael hyfforddiant i ymdrin â lles plant gan ddefnyddio dull gweithredu Safe & Together™. Mae'r Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig yn helpu staff i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu am y model hwn at eu hymarfer.

Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol, a cheir adnoddau pellach i'n helpu i ddeall pob math o gam-drin domestig.

Maent yn cynnwys pwyntiau ymarfer allweddol, cwestiynau myfyriol i gefnogi ein dull gweithredu ymchwiliol a dolenni i adnoddau pellach a phecynnau cymorth. Maent yn tynnu sylw at ba ymateb y gall teuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig ei ddisgwyl gan ymarferwyr a staff Cafcass Cymru.

## Cymorth ac adnoddau

Mae'r canllawiau llawn yn cynnig adnoddau, cyfeiriadau a rhestrau darllen pellach i gefnogi eich datblygiad proffesiynol mewn perthynas â'r pwnc hwn.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yw llinell gymorth genedlaethol 24/7 Llywodraeth Cymru i oroeswyr a gweithwyr proffesiynol, ni waeth beth fo'u hunaniaeth, sydd am gael cyngor a chymorth mewn perthynas â cham-drin domestig.

**Byw Heb Ofn:** www.llyw.cymru/byw-heb-ofn

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn:** 0808 8010 800

## Galwad i Weithredu

I ymarferwyr Cafcass Cymru:

- Treuliwch amser yn darllen y canllawiau.
- Nodwch bwyntiau ymarfer y byddwch yn eu defnyddio yn eich gwaith.
- Cymhwyswch yr egwyddorion at eich ymarfer.